Ysgol Arbennig Maesgwyn
Heol Cwmdâr
Cwmdâr
Aberdâr
Rhondda Cynon Taf
CF44 8RE

23/07/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Gorffennaf 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr dan arweiniad Rachel Hackling AEF ag Ysgol Arbennig Maesgwyn yn ddiweddar i ystyried y cynnydd mae'r ysgol wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'i harolygiad craidd ym mis Mai 2024.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i:

- gyfarfod â grŵp ffocws o ddisgyblion a staff
- cyfarfod â'r tîm arweinyddiaeth
- cynnal teithiau dysgu
- craffu ar ddogfennaeth yr ysgol

Fe wnaethom hefyd ystyried y gwaith mae'r ysgol yn ei wneud i wella ansawdd yr addysgu a'i threfniadau sicrhau ansawdd.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella cysondeb yn ansawdd yr addysgu a sicrhau bod yr addysgu yn diwallu anghenion dysgu ychwanegol pob un o'r disgyblion

Ers adeg yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi gosod gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu wrth wraidd gwaith gwella'r ysgol. Maent wedi cyflwyno model addysgu ysgol gyfan sy'n cynnwys strwythurau gwersi cyson a defnyddio amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant clir. Yn ychwanegol, mae arweinwyr wedi ad-drefnu strwythurau dosbarthiadau i adlewyrchu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) disgyblion yn well. O

ganlyniad, mae gan staff fframwaith clir ar gyfer cynllunio a chyflwyno dysgu sy'n cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad a chynnydd disgyblion yn eu dysgu.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf yn gwella cysondeb ac ansawdd yr addysgu. Ymhellach, mae arweinwyr wedi cryfhau dulliau i ddiwallu ADY disgyblion. Gall staff addysgu gael gwybodaeth well am ddisgyblion yn sgil cyflwyno dogfennau 'dosbarth ar dudalen', sy'n crynhoi targedau cynllun datblygu unigol (CDU) a gwybodaeth allweddol am ddysgu. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn cael cyfleoedd rheolaidd i adolygu CDUau disgyblion a thrafod darpariaeth gynlluniedig yn ystod sesiynau hyfforddi a chynllunio. O ganlyniad, mae bron pob un o'r staff yn dangos dealltwriaeth gadarn o anghenion unigol disgyblion ac yn defnyddio ystod o strategaethau yn effeithiol, yn cynnwys cymhorthion gweledol, sgaffaldiau, holi syml, ac adnoddau cyfathrebu yn seiliedig ar luniau, i gefnogi ymgysylltu.

Adeg yr ymweliad, dangosodd bron pob un o'r disgyblion agweddau eithriadol o dda at ddysgu ac roeddent yn awyddus i groesawu ymwelwyr i'w hystafelloedd dosbarth. Dywedodd disgyblion eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt gan staff addysgu a'u bod yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac y gwrandewir arnynt. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos ymddygiadau cadarnhaol ac yn falch o ddathlu llwyddiannau a chyflawniadau eu cyfoedion. Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn esbonio'n hyderus beth maent yn dysgu ei wneud a'r meini prawf llwyddiant ar gyfer y dasg. Maent yn hyderus i rannu eu safbwyntiau a'u barn mewn sesiynau holi ac ateb.

Mae arweinwyr wedi cryfhau darpariaeth y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth trwy fuddsoddiad pwrpasol mewn cyfleusterau dan do ac yn yr awyr agored. Mae datblygu ardaloedd dysgu a mannau hamdden yn yr awyr agored, ochr yn ochr â gwelliannau i ardaloedd cymunol, yn cyfrannu'n gadarnhaol at les disgyblion a'u parodrwydd i ddysgu. Mae staff yn gwneud defnydd priodol o'r amgylcheddau hyn i gefnogi disgyblion y mae angen rheoleiddio synhwyraidd arnynt neu fannau tawelach cyn dychwelyd yn llwyddiannus i ddysgu. O ganlyniad, mae disgyblion yn elwa ar amgylcheddau sy'n hyrwyddo ymgysylltu cadarnhaol a lles emosiynol yn gynyddol.

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol hynod fuddiol ar gyfer staff. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at welliannau mewn arfer addysgu. Mae sesiynau hyfforddi rheolaidd, ffocws ar ddatblygu asesu ar gyfer dysgu, gweithdai cwricwlwm a dysgu a hyfforddiant achrededig sy'n benodol i bwnc, i gyd wedi cryfhau gwybodaeth staff ac yn hyrwyddo ymagwedd fwy cydweithredol at addysgu.

Mae arweinwyr wedi datblygu systemau cynyddol effeithiol i fonitro cynnydd disgyblion a llywio addysgu. Mae staff yn gwneud defnydd da o adolygiadau CDU, gwerthusiadau diwedd tymor o dargedau a thystiolaeth a gofnodir trwy blatfformau digidol ar-lein i

fonitro cynnydd. Caiff disgyblion eu cynnwys yn briodol mewn adolygu eu dysgu eu hunain, ac mae athrawon yn cydweithio i werthuso deilliannau ac addasu darpariaeth.

Efallai byddai'r ysgol yn dymuno ystyried

- Parhau i ddatblygu dulliau ar gyfer datblygu medrau trawsgwricwlaidd.

### Cryfhau gweithdrefnau ar gyfer sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant i ganolbwyntio ar gynnydd disgyblion a'r safonau maent yn eu cyflawni.

Mae arweinwyr wedi diwygio strwythur arweinyddiaeth yr ysgol, yn cynnwys creu rôl y pennaeth cynorthwyol a dirprwyo cyfrifoldebau ychwanegol ymhlith arweinwyr canol. Mae cyfrifoldebau arwain bellach wedi eu mapio'n glir, yn cael eu trafod trwy adolygiadau datblygiad proffesiynol, ac yn cael eu cefnogi gan hyfforddi a mentora. Mae'r model arweinyddiaeth ddosbarthedig newydd hwn yn cryfhau goruchwyliaeth o'r cwricwlwm, yn gwella cyfathrebu, ac yn cynyddu ymgysylltiad staff. Ymhellach, mae cydweithio rhwng y staff yn arwain at fwy o gysondeb o ran cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm.

Mae arweinwyr wedi cryfhau trefniadau sicrhau ansawdd yr ysgol trwy gyflwyno dull mwy strwythuredig a gwerthusol o fonitro addysgu a dysgu. Mae'r broses 'saib cynnydd' a gyflwynwyd yn ddiweddar yn galluogi arweinwyr i adolygu gwaith disgyblion ochr yn ochr â thystiolaeth a gofnodwyd trwy systemau olrhain, ac yn darparu cyfleoedd i ddilysu barnau athrawon am gynnydd disgyblion. Cynhelir yr adolygiadau hyn ddwywaith y flwyddyn a sicrheir eu hansawdd yn fewnol ac yn allanol gan bartner gwella'r ysgol. Mae hyn yn rhoi gwerthusiad cywir i arweinwyr o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu.

Mae arweinwyr wedi cryfhau trefniadau sicrhau ansawdd i wella ansawdd a chysondeb addysgu a dysgu. Mae arweinwyr yn cynnal ystod o weithgareddau yn cynnwys teithiau dysgu, arsylwadau, arolygon staff ac adolygiadau datblygu perfformiad. Mae hyn yn eu galluogi i gael dealltwriaeth glir o arfer ystafell ddosbarth a llywio blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r dull mentora personoledig, dysgu proffesiynol a gweithdai targedig yn cynorthwyo athrawon i wella'u cynllunio, gwahaniaethu, holi ac asesu.

Mae'r tîm lles wedi sefydlu dull cyson a strwythuredig i gynorthwyo disgyblion trwy ymyriadau targedig, adolygiadau rheolaidd a gwaith partneriaeth agos â theuluoedd. Mae staff yn rhannu dealltwriaeth gyffredin o strategaethau effeithiol, gan sicrhau bod cymorth yn cael ei gymhwyso'n gyson ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn cael cymorth amserol sy'n gwella'u hymgysylltiad, eu presenoldeb a'u gallu i ddysgu'n llwyddiannus.

Mae arweinwyr wedi buddsoddi'n bwrpasol mewn gwella amgylchedd dysgu'r ysgol i gefnogi dysgu a lles disgyblion yn well. Mae datblygiadau diweddar yn cynnwys adeilad newydd, adnoddau ystafelloedd dosbarth, offer synhwyraidd a phecynnau cymorth gwell,

gwelliannau i fannau dysgu yn yr awyr agored a chreu ardal gemau aml-ddefnydd (MUGA). Mae'r datblygiadau hyn yn darparu ystod ehangach o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn dysgu, gweithgarwch corfforol a rhyngweithio cymdeithasol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder. Yn rhan o'n hymweliad, codom fater diogelu gyda'r ysgol, ac aethpwyd i'r afael â hyn cyn diwedd yr ymweliad. Cofnodom y pryder hwn mewn llythyr diogelu a gyflwynwyd i'r ysgol a'r awdurdod lleol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/maesgwyn-special-school-cy/

Yn gywir



**Dyfrig Ellis**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol